**Pwyllgor Datblygu Economaidd** **EDC 05-02 (draft min)**

**COFNODION**

**Dyddiad** **6 Mawrth, 02**
**Amser** **2.00 – 5.30pm**
**Lleoliad** **Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd**

**Yn bresennol**

| **Aelodau** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Chris Chapman | Cwm Cynon |
| Andrew Davies (Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd) | Gorllewin Abertawe |
| Ron Davies | Caerffili |
| Mike German | Dwyrain De Cymru |
| Christine Gwyther (Cadeirydd) | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Alison Halford | Delyn |
| Brian Hancock | Islwyn |
| Dafydd Wigley | Caernarfon |
| Phil Williams | Dwyrain De Cymru |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Emyr Roberts | Yr Is-adran Polisi Economaidd |
| David Ward | Y Gyfarwyddiaeth Gymunedau |
| Francois Samuel | Y Gangen Adeiladwaith ac Ynni Domestig |

**Yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Jake Chapman | Ymgynghorydd Arbenigol ar yr Adolygiad o Ynni |
| Yr Athro Phil Jones | Ysgol Pensaernïaeth Cymru |
| Catherine Bond | Swyddog Technegol, Ffederasiwn yr Adeiladwyr Tai |
| Gareth Williams | Ffederasiwn yr Adeiladwyr Tai |
| Jim Proseser | Cyngor Bro Morgannwg |

**Ysgrifenyddiaeth**

John Grimes Clerc
Sian Wilkins Dirprwy Glerc

**Eitem 1: Sylwadau agoriadol y Cadeirydd.**

1. Gwnaethpwyd datganiadau o fuddiant gan Christine Gwyther y mae ei chymar yn berchen ar fusnes ymgynghoriaeth, gan Dafydd Wigley sydd yn gyfarwyddwr ar gwmni bach a chan Brian Hancock sydd yn gweithio fel ymgynghorydd ar Iechyd a Diogelwch.
2. Croesawodd y Cadeirydd Andrew Davies i'w gyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Datblygu Economaidd fel y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd, a chroesawodd hefyd y ffaith bod y portffolio TG bellach wedi ei gynnwys fel rhan o gylch gorchwyl y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd.

**Eitem 2: Yr Adolygiad Ynni – Effeithlonrwydd Ynni**

1. Gofynnodd y Cadeirydd am gyflwyniadau byr ar y papurau yn ymwneud ag effeithlonrwydd ynni a oedd wedi eu cyflwyno.
2. Yr Athro Phil Jones – Atgoffaodd yr Athro Phil Jones yr Aelodau fod yn agos at hanner yr holl garbon sy'n cael ei ryddhau i'r amgylchedd yn deillio o wresogi a goleuo adeiladau, a'i bod yn hanfodol hybu effeithlonrwydd ynni yn gyntaf ac yna symud ymlaen i ystyried ffyrdd o gynhyrchu mwy o ynni â deunyddiau adnewyddadwy. Nododd y prif bwyntiau a oedd yn gysylltiedig ag effeithlonrwydd ynni yng nghyswllt dylunio adeiladau a thynnodd sylw'r Aelodau at yr argymhellion a wnaethpwyd yn ei bapur.
3. Catherine Bond – Dywedodd Catherine Bond fod Ffederasiwn yr Adeiladwyr Tai wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth y DU ar y cynigion Rhan L diweddar ar gyfer rheoliadau adeiladu ac y gallai'r rhain arwain at newidiadau yn y diwydiant adeiladu. Dywedodd ei bod yn bwysig bod y Trefniadau Asesu Safonedig a oedd yn cael eu defnyddio yn y diwydiant adeiladu o'r newydd yn cael eu hymestyn i adeiladau sy'n bodoli'n barod hefyd, gan dynnu sylw deiliaid tai at effeithlonrwydd ynni yn eu tai.
4. Jim Prosser – Dywedodd Jim Prosser fod gwaith Awdurdodau Lleol ym maes effeithlonrwydd ynni yn seiliedig ar y Ddeddf Arbed Ynni Cartref a thynnodd sylw at y problemau a wynebid wrth geisio gosod targedau ar gyfer y sector preifat, ac yn fwyaf arbennig, wrth nodi beth oedd yn digwydd o'r naill flwyddyn i'r llall. Gofynnodd i'r Cynulliad ystyried cynnwys elfen o hyblygrwydd yng nghynlluniau Awdurdodau Lleol er mwyn caniatáu i awdurdodau unigol roi sylw i faterion lleol penodol drwy gynlluniau grant. Dywedodd fod y gwahanol ffynonellau ar gyfer arian ynni yn peri dryswch yn aml a dywedodd y byddai'r sefyllfa'n gliriach pe bai gan Awdurdodau Lleol un ffynhonnell i droi ati.
5. Francois Samuel – Dywedodd Francois Samuel y dylid rhoi blaenoriaeth yn y

tymor canolig a’r tymor hir i rôl y stoc dai bresennol yng nghyswllt effeithlonrwydd ynni, ond ei bod hefyd yn bwysig parhau â datblygiadau mewn eiddo newydd, yn enwedig wrth edrych ar fframwaith 50 mlynedd. Cyfeiriodd at y gwahanol gamau y sonnid amdanynt yn ei bapur, a oedd wedi eu trefnu er mwyn nodi newid yn yr hinsawdd a pholisïau prinder tanwydd. Dywedodd hefyd fod y Cynulliad yn cynnal trafodaethau gyda’r cwmnïau cyfleustodau er mwyn cyd-drefnu gweithgareddau gyda phrosiectau’r Cynulliad, osgoi dryswch a dyblygu gwaith a sicrhau bod y cyfan yn unol â’r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref.

6. Nodwyd yn y drafodaeth bod y system gynllunio yn bwysig wrth ddylanwadu ar faterion fel y posibiliadau ar gyfer defnydd goddefol o ynni’r haul, ond na ddylid drysu rhwng cynllunio er mwyn gwella effeithlonrwydd ynni a’r rôl sydd gan reoliadau adeiladu i’w chwarae. Dywedodd Ffederasiwn yr Adeiladwyr Tai fod y diwydiant adeiladu’n cefnogi’r farn y dylai camau effeithlonrwydd ynni ganolbwyntio ar reoliadau adeiladu yn hytrach nag ar gynllunio.
7. Nodwyd yng nghyswllt Cyfarwyddeb arfaethedig y GE ar Berfformiad Adeiladau o safbwynt Ynni, bod y swyddogion yn cyfrannu tuag at y broses ymgynghorol. Nodwyd hefyd y byddai’r Gyfarwyddeb yn disodli deddfwriaeth bresennol y DU yn y maes hwn.
8. Trafodwyd effaith awyru ar dai sydd â risg o nwy Radon a chyfeiriodd Francois Samuel sylw’r Aelodau at bapur diweddar i’r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai gan y Gyfarwyddiaeth Dai, a oedd yn nodi’r rhaglen yn hybu eiddo sydd â risg. [Gweler Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai 13 Chwefror, papur LGH-04-02(p.5)]
9. Mynegwyd pryder y gallai prinder hyfforddiant sgiliau olygu na ellid rhoi mwy o syniadau newydd ym maes effeithlonrwydd ynni ar waith mewn eiddo newydd nac mewn eiddo sy’n bodoli’n barod. Dywedodd Ffederasiwn yr Adeiladwyr Tai y byddai problem gyda chyflenwyr pe codid y safonau’n uwch na’r rheoliadau Rhan L presennol ac y byddai angen mwy o hyfforddiant. Cydnabuwyd bod y rheoliadau presennol wedi eu pennu ar lefel y gallai’r diwydiant ddarparu ar ei chyfer er mwyn caniatáu i’r diwydiant cyflenwi symud ymlaen cyn gwneud mwy o welliannau i’r rheoliadau.
10. Cydnabyddid bod y data ynghylch cyflwr y stoc dai a faint o gamau effeithlonrwydd ynni oedd wedi eu gweithredu yn dameidiog. Dywedodd Francois Samuel fod arian wedi ei ddarparu er mwyn galluogi’r Awdurdodau Lleol i wneud arolygon o gyflwr tai ac y dylai’r rhain fod yn eu lle erbyn 2006 fan bellaf. Yr oedd yr Awdurdodau Lleol yn casglu data effeithlonrwydd ynni ar gyfer stoc dai’r sector cyhoeddus yn awr, ond cydnabyddid bod diffyg gwybodaeth ynghylch y sector preifat yn broblem. Yr oedd y Cynulliad hefyd wedi darparu meddalwedd i helpu’r Awdurdodau Lleol â’u gwaith o gyflwyno polisïau dan y Ddeddf Arbed Ynni Cartref.
11. Mynegwyd pryder nad oedd y Ddeddf Arbed Ynni Cartref yn cael llawer o effaith a chadarnhaodd Francois Samuel fod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru’n awyddus i roi cymorth strategol i Awdurdodau Lleol er mwyn sicrhau bod effeithlonrwydd ynni’n cael mwy o flaenoriaeth. Cydnabyddid bod llawer o

Awdurdodau Lleol yn fwy tebygol o ymateb i bwnc prinder tanwydd yn hyn o beth nag i effeithiau twymo byd-eang. Yr oedd Mesur Aelodau Preifat, sy'n ceisio ymestyn dyletswyddau Awdurdodau Lleol dan y Ddeddf Arbed Ynni Cartref, yng ngham Pwyllgorau'r Senedd ar hyn o bryd.

12. Mae cyfran helaeth o gartrefi Cymru'n dai sydd â waliau soled ac amlinellwyd y ffyrdd o wella inswleiddiad yn y rhain. Cydnabyddid, fodd bynnag, bod angen mwy o waith ymchwil i'r deunyddiau a ddefnyddid ac i'r problemau a allai godi gyda lleithder ac anwedd.
13. Teimlai rhai o'r Aelodau fod angen mwy o wybodaeth cyn y gellid ystyried adroddiad drafft ar effeithlonrwydd ynni. Cyfeiriasant yn fwyaf arbennig at yr angen am weithlu medrus cyn y gellid cyflwyno polisïau effeithlonrwydd ynni ac awgrymasant y dylid siarad gyda Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu. Nododd yr Aelodau hefyd eu bod yn teimlo bod angen cael mwy o wybodaeth am gostau a manteision y gwahanol ddewisiadau a oedd ar gael. Dywedodd y Cadeirydd y byddai hi'n rhoi mwy o ystyriaeth i gam nesaf y rhan hon o'r adolygiad.

**Eitem 3: Yr Adolygiad Ynni – Adroddiad Drafft Cyn-ymgynghori ar Ynni Adnewyddadwy.**

1. Canolbwyntiwyd yn ystod y drafodaeth ar y lefel y dylai'r Pwyllgor ei hargymell fel targed ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy. Nododd yr Aelodau y gellid mynegi hyn mewn sawl ffordd: o safbwynt cyfran Cymru o darged y DU, mewn perthynas â faint o drydan sy'n cael ei gynhyrchu yng Nghymru, neu mewn perthynas â faint o drydan sy'n cael ei ddefnyddio yng Nghymru. Byddai pob un yn rhoi ffigwr gwahanol. Teimlai'r Aelodau hefyd ei bod yn bwysig gosod targed realistig ac ystyried a nodi yn yr adroddiad beth oedd goblygiadau pa lefel bynnag a ddewisid o ran niferoedd y tyrbinau gwynt neu gyfleusterau cynhyrchu ynni eraill y byddai eu hangen. Teimlai'r Aelodau nad oedd ganddynt ddigon o wybodaeth o'u blaenau i ystyried goblygiadau'r dewisiadau eraill.
2. Dywedodd yr Ymgynghorydd Arbenigol bod modd mynegi'r targed mewn gwahanol ffyrdd mewn theori, ond nad oedd gwybodaeth ddibynadwy ar gael i ddangos faint o drydan oedd yn cael ei ddefnyddio yng Nghymru. Yn ychwanegol at hyn, nid y Pwyllgor na'r Cynulliad Cenedlaethol fyddai'n pennu'r cyfuniad o dechnolegau a geid pe bai targed arbennig yn cael ei gyrraedd ond materion cynllunio ac ystyriaethau masnachol. Yn ei farn ef, os anelid at ffigwr o 4 TWh yr oedd hyn yn debygol o olygu 50-75% o ynni gwynt. Ni fyddai'n disgwyl i hyn fod yn fwy na 200 o dyrbinau ychwanegol ar y tir, ond byddai hyn yn dibynnu ar faint yr unedau a osodid.
3. Dywedodd un o'r Aelodau mai ei amcangyfrif ef ar sail cynlluniau a chydsyniadau a oedd yn bodoli'n barod, ac yn y blaen, oedd y byddai'n realistig erbyn 2010 disgwyl tua 2 TWh o dyrbinau gwynt ar y tir mawr a 0.5 TWh o dyrbinau gwynt oddi ar y glannau. Teimlai ef mai dyma'r uchafswm yr oedd yn realistig ei ddisgwyl yng Nghymru, o safbwynt y gallu i gynhyrchu trydan â gwynt, hyd nes y deuid o hyd i ateb i'r broblem o sut i storio trydan. Credai y gellid cynhyrchu 1

TWh hefyd o ffynonellau hydro a biomas gan wneud cyfanswm o 3.5 TWh. Gan gymryd y byddai'r datblygiadau technolegol yn parhau, teimlai ei bod yn rhesymol gobeithio am 0.5 TWh arall gan wneud cyfanswm o 4 TWh. Yn ei farn ef, yr oedd hwn yn darged a fyddai'n galw am gryn dipyn o waith caled, ond yr oedd yn un realistig.

4. Nododd yr Aelodau rywfaint o gefnogaeth gyffredinol i'r dadansoddiad hwn ond rhybuddiwyd ynghylch yr amrediad eang o ffactorau a allai ddylanwadu ar y gwir ganlyniadau.
5. Nododd yr Aelodau y gallai targed o 4 TWh erbyn 2010 fod yn realistig, ond ei bod yn llawer anos gweld sut y gellid sicrhau bod y ffigyrau hyn yn cael eu dyblu, i adlewyrchu'r cynydd yn nharged y DU, erbyn 2020. Dywedodd yr Ymgynghorydd Arbenigol y gellid dadlau, mewn gwirionedd, mai'r targed cyntaf oedd yr un anoddaf. Galwai am weithredu llawer o dechnolegau newydd yn gyflym mewn cyfnod o 8 mlynedd yn unig. Fodd bynnag, erbyn 2010 byddai llawer o'r materion technegol a'r ystyriaethau cynllunio wedi eu datrys a gallai ehangu fod yn llawer haws ar ôl hynny.
6. Treuliwyd peth amser yn trafod a ddylid ystyried y targed fel sbardun economaidd yn bennaf. Nododd yr Aelodau ei bod yn bwysig datblygu dull cydlynol o ddatblygu agweddau cysylltiedig ar yr economi gyda'i gilydd er mwyn cyrraedd at y targedau.
7. Daeth yr Aelodau i'r casgliad nad oeddent mewn sefyllfa i bennu targed pendant. Cytunasant y dylai'r adroddiad gynnwys mwy o fanylion am y gwahanol ddewisiadau a oedd ar gael, a chanlyniadau pob un, ac y dylai hyn fod yn fater i'w ystyried yn y broses ymgynghorol. Cytunwyd y byddai'r adroddiad ar gyfer ymgynghori yn cael ei gwblhau y tu allan i'r pwyllgor.

**Eitem 4- Adroddiad y Gweinidog**

1. Agorodd y Gweinidog y drafodaeth â datganiad personol byr yn nodi ei fod yn awyddus i weithio mewn cysylltiad agos â'r Pwyllgor. Dywedodd ei fod yn falch iawn o'r gwaith yr oeddent wedi ei wneud gyda'r adolygiad o gymorth i fusnesau yng Nghymru ac o'r gwaith a oedd wedi ei wneud hyd yn hyn gyda'r Adolygiad o Ynni. Dywedodd ei fod yn sylweddoli bod gan y Pwyllgor rôl ddeublyg o safbwynt datblygu ac archwilio polisi a phwysleisiodd ei fod yn awyddus i weithio mewn cysylltiad agos â hwy. Gorffennodd drwy gyfeirio at ei gefndir ei hun mewn gweithgynhyrchu a'i gefnogaeth gref i hybu datblygiadau newydd a'r canolfannau Technium. Pwysleisiodd mai'r her yr oedd y Cynulliad yn ei hwynebu oedd cynyddu Cynnyrch Mewnwladol Crynswth yng Nghymru a gwneud hynny drwy ddatblygu economi a oedd yn seiliedig ar wybodaeth.
2. Gan ddiweddaru ei adroddiad ysgrifenedig ar lafar, cyfeiriodd y Gweinidog at benderfyniad Llywodraeth yr Unol Daleithiau i godi treth ar ddur a dywedodd ei fod wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant yn mynegi ei bryder ynghylch y penderfyniad a'r ffaith y byddai camau mewn ymateb

i hyn ar ran Llywodraeth y DU a'r GE yn cael cefnogaeth frwd yng Nghymru. Rhoddodd gopi o'i lythyr i'r Aelodau. Cyfeiriodd hefyd at yr anawsterau yr oedd ASW wedi nodi y byddent yn eu hwynebu o ganlyniad i'r penderfyniad a dywedodd ei fod yn awyddus i gael cyfarfod gyda'u Rheolwr-Gyfarwyddwr. Yr oedd hefyd wedi gofyn i waith gael ei wneud er mwyn canfod pa effaith fyddai'r cyhoeddiad yn ei gael ar gwmnïau yng Nghymru.

3. Cyfeiriodd y Gweinidog at gyhoeddiadau diweddar ynghylch datblygiadau yn DARA, Sain Tathan. Cyfeiriodd hefyd at gyfarfod a fyddai'n cael ei gynnal yn y dyfodol rhwng gweinidogion twristiaeth yn Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig. Ceir manylion llawnach am ei ddiweddariad llafar ynghlwm wrth yr adroddiad a gyflwynodd i'r Pwyllgor.
4. Mynegodd yr Aelodau eu cefnogaeth frwd i'r camau sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth y DU er mwyn newid penderfyniad yr Unol Daleithiau i osod treth ar ddur sy'n cael ei fewnforio. Mynegwyd pryder y gallai hyn fod yn ddechrau cynnydd graddol mewn arferion masnachu cyfyngedig, na fyddai o fudd i unrhyw un yn y pen draw. Yr oedd yr Aelodau'n gofidio ynghylch y gefnogaeth a gafodd Mr Mittal gan Lywodraeth y DU a mynegwyd pryder mai un canlyniad i hyn fyddai cynnydd yn y dur a fyddai'n cael ei fewnforio o Romania. Dywedodd rhai hefyd eu bod hwy'n teimlo nad oedd Llywodraeth y DU wedi gwneud fawr ddim i leihau effaith cau gwaith Corus a gobeithient y ceid ymateb mwy cadarnhaol a rhagweithiol y tro hwn. Gofynnwyd i'r Gweinidog gyfleu'r neges hon iddynt.
5. Yr oedd yr Aelodau'n siomedig bod y Gweinidog wedi nodi yn ei adroddiad nad oedd ganddo unrhyw gynlluniau i ysgrifennu at Awdurdod Harbwr Caerdydd ynghylch y diffyg cynrychiolwyr o Fro Morgannwg nac o rannau eraill o Gymru. Dywedodd y Gweinidog nad oedd mewn sefyllfa i roi cyfarwyddyd i'r Awdurdod Lleol ac yr oedd ei ragflaenwyr eisoes wedi mynegi eu barn yn bendant wrthynt. Nododd yr Aelodau fod yr Arglwydd Faer yn dal i fod yn gyndyn i ddod i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd i drafod datblygiadau ym Mae Caerdydd a gobeithient y byddai'r Gweinidog newydd yn rhoi mwy o ystyriaeth i'r mater hwn. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n edrych ar y mater unwaith yn rhagor er mwyn gweld a oedd unrhyw beth arall y gallai ei wneud i ategu'r neges. [**Cam Gweithredu: Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd.]**
6. Croesawodd yr Aelodau y newyddion bod y cwestiynau ynghylch statws cynllun grant Adran 4 y Bwrdd Croeso wedi eu datrys erbyn hyn. Yr oeddent hefyd yn croesawu prosiect Trac Sgïo Eryri, a fyddai o fudd aruthrol i Lanberis. Yr oedd yn bwysig bod yr asiantaethau sydd yng Nghymru'n gweithio gyda'i gilydd ar y mater hwn.
7. Croesawodd yr Aelodau y gostyngiad ym mhrisiau BT ar gyfer ADSL band llydan a nodasant y cyfeiriadau at waith ar realiti rhithwir a oedd yn cael ei wneud yn Aberystwyth. Pwysleisiwyd pwysigrwydd y datblygiadau hyn mewn TGCh yng Nghymru – a chan nodi ei gyfrifoldeb am e-dechnoleg yng Nghymru, cymeradwyodd y Gweinidog hyn.
8. Yr oedd nifer o'r Aelodau wedi cael llythyrau gan Gyswllt Busnes ym Môn yn sôn

am anawsterau a oedd wedi codi yno o ganlyniad i'r newidiadau i'r gwasanaeth yn yr ardal honno. Dywedodd y Gweinidog nad oedd yn ymwybodol o broblemau. Fodd bynnag, pe bai'r Aelodau'n anfon y llythyr ato ef, byddai'n ymchwilio i'r mater. Pwysleisiodd pa mor bwysig oedd gwasanaeth o'r un safon drwy Gymru gyfan.

9. Cyfeiriodd yr Aelodau at sylwadau yr oeddent wedi eu derbyn gan Gyngres Undebau Llafur Cymru a gofynasant a oedd gan y Gweinidog gynlluniau i drafod anawsterau yn economi gweithgynhyrchu Cymru gyda hwy. Dywedodd y Gweinidog ei fod yn awyddus iawn i wneud hyn a bod cyfarfod yn cael ei drefnu. Dywedodd ei fod bob amser yn awyddus i wrando ar bryderon ynghylch yr economi yng Nghymru a thynnodd sylw at bwysigrwydd rôl yr undebau llafur yn y gwaith hwn.

**Eitem 5 – Fframwaith Adfywio De-ddwyrain Cymru**

1. Croesawodd y Gweinidog yr adroddiad a phwysleisiodd gymaint o gydweithio oedd i'w weld rhwng y gwahanol Awdurdodau. Dywedodd mai'r cam nesaf yn y broses oedd gweithredu'r Fframwaith.
2. Teimlai'r Aelodau fod y dadansoddiad yn yr adroddiad yn un da a bod strategaeth glir wedi esblygu ac i'w gweld yn y cynllun gweithredu. Fodd bynnag, yr oedd rhywfaint o bryder nad oedd yr adroddiad yn cynnwys digon o "gynlluniau mawr" i adfywio economi Cymru.
3. Teimlai rhai Aelodau, er mor bwysig oedd dyrannu arian i ardaloedd Blaenau-Gwent a Chasnewydd, y dylid cydnabod bod pobl sy'n byw yn ardaloedd Caerffili a Thorfaen hefyd wedi dioddef o ganlyniad i golli swyddi yng ngwaith Corus a bod arnynt hwythau hefyd angen cymorth. Gofynasant i'r Gweinidog ystyried hyn yn ei ymateb i'r cynllun. Nodasant hefyd nad arian newydd oedd y pecyn achub o £66m yr oedd y cynllun yn seiliedig arno, ond arian a ddylai fod wedi ei wario fel mater o drefn yn y rhan hon o Gymru, yn enwedig ym meysydd iechyd, addysg a hyfforddiant.
4. Yr oedd yr Aelodau'n croesawu'r ymrwymiad i Ganolfan Ddysgu Glyn Ebwy ond dywedasant ei fod yn nodi bod angen i'r gyllideb bresennol ar gyfer Addysg fod yn haelach na chyllidebau yn Lloegr er mwyn sicrhau nad oedd darpariaethau yng Nghymru'n mynd yn bellach ar ei hôl hi. Teimlid hefyd ei bod yn bwysig rhoi blaenoriaeth i fynediad cyffredinol i ADSL.
5. Yr oedd pryder nad oedd yr adroddiad yn cynnwys amserlenni, targedau a chamau arolygu ar gyfer pob un o'r camau gweithredu unigol, a nodwyd yn fwyaf arbennig nad oedd unrhyw dargedau rhanbarthol ar gyfer swyddi yn y strategaeth. Teimlai rhai o'r Aelodau fod yr adroddiad yn tynnu sylw at yr angen am ddull gweithredu a fyddai'n seiliedig ar is-ranbarthau er mwyn datrys problemau yng Nghymru. Gwnaethpwyd y pwynt hefyd na ddylai'r adroddiad fynd yn groes i strategaethau ar gyfer Cymru Gyfan fel Cymru ar ei Hennill.
6. Teimlai'r Aelodau y dylai Pwyllgorau eraill ystyried yr adroddiad hefyd, gan ei fod

yn cynnwys goblygiadau i Addysg ac Iechyd fel ei gilydd. Cytunodd y Cadeirydd i ysgrifennu at y Cadeiryddion eraill gan ddweud wrthynt bod y Pwyllgor yn teimlo bod yr adroddiad yn ddefnyddiol iawn. **[Cam Gweithredu: Cadeirydd/Clerc]**

7. Wrth gloi'r drafodaeth dywedodd y Gweinidog wrth yr Aelodau nad dogfen gan y Cynulliad oedd hon ac y byddai'r Pwyllgor yn cael cyfle i drafod ymateb y Llywodraeth maes o law.
8. Dywedodd fod y £66m a oedd ar gael ar gyfer y fframwaith ar gael o ganlyniad i danwariant ar raglenni eraill a dywedodd y byddai ardaloedd Caerffili a Thorfaen yn gallu gwneud cais am fwy o arian Corus nad oedd wedi ei ddyrannu eto.
9. Dywedodd fod y gallu i gysylltu yn flaenoriaeth i Gymru Arlein ac i Gymru ar ei Hennill fel y dangosai'r £33m a oedd wedi ei ymrwymo ar gyfer y rhwydwaith dysgu gydol oes. Ychwanegodd ei fod yntau'n bersonol wedi ymrwymo i'r sector gweithgynhyrchu yng Nghymru a bod sawl rhan o'r sector yn ffynnu.

## Eitem 6: Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

1. Cytunwyd bod Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Chwefror yn rhai cywir.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**